| | |
|---|---|
| | **EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD, MALDWYN 2024** |
| | Cystadleuaeth 88 – Grŵp Cerdd Dant 19-25 oed |
| | **Penyberth, Gwynn ap Gwilym** |

‘Prydferthwch,’ sibrydodd y dail wrth y nos,
a’r nos wrth y lloer, a’r lloer wrth y gwynt.
‘Prydferthwch,’ utganodd y gwynt dros y rhos
‘Mae tân yn Llŷn.’

‘Cyfiawnder,’ dyfarnodd y rhos wrth y graig,
a’r graig wrth y glaw, a’r glaw wrth y môr.
‘Cyfiawnder,’ ochneidiodd y môr wrth y traeth; -
‘Mae tân yn Llŷn.’

‘Dyna drais’, meddai Lloegr wrth reithwyr y fainc,
a rheithwyr y fainc wrth farnwr y llys.
‘Dyna drais,’ meddai’r barnwr, ‘a hallt yw’r gosb
‘am dân yn Llŷn.’

‘Dieuog,’ sisialodd yr haul wrth y ddôl,
a’r ddôl wrth y nant, a’r nant wrth y glyn.
‘Dieuog,’ wylodd y glyn wrth y gwlith,
‘am dân yn Llŷn.’

‘Gwinllan a roddwyd i’m gofal,’ medd ef, -
‘rhaid ei diwyllio fy hun,
ac fe gyfyd cenhedlaeth fel ffenics o lwch
‘y tân yn Llŷn’.